# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 24 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(91)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynnau 1 i 11. Trosglwyddwyd cwestiwn 12 i’w ateb yn ysgrifenedig. Atebwyd cwestiynau 3 ac 8 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2. Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd cwestiynnau 2 a 3. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ : Datganiad ar y cyd â Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r drefn gyllido

Dechreuodd yr eitem am 14.24

### 4. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.09

Gofynnwyd y 3 cwestiwn.

**Cynnig Trefniadol**

Cafwyd cynnig trefniadol gan Lynne Neagle yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio’r ddadl fer.

### 5. Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18 mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**NDM5072 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 18 mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2012; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 18, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**NDM5076 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lindsay Whittle (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Bethan Jenkins (Plaid Cymru).

**NDM5077 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Lindsay Whittle (Plaid Cymru).

**NDM5078 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Elin Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau yn lle Bethan Jenkins (Plaid Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**7. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Ardoll Gwm Cnoi (Darren Millar)**

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM5046 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Darren Millar gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 13 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 30 | 47 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**8. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid 'Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf'**

Dechreuodd yr eitem am 16.06

**NDM5073 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Bwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2012.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**9. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.54

**Gorhiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5074 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi dull Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru, sef ar lefel yr ecosystem.

2. Yn cydnabod gwerth y dull rheoli ar lefel yr ecosystem i fusnesau a chymunedau, yn ogystal â'i fanteision i fioamrywiaeth.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod y dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn cael ei ddefnyddio ar draws Llywodraeth Cymru; a

b) hyrwyddo gwerth y dull rheoli ar lefel yr ecosystem i'r cyhoedd ac i fusnesau yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 16 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.45

## 10. Dadl Fer

**NDM5075 Lynne Neagle (Tor-faen):**

Y Storm Berffaith

Cafodd y Ddadl Fer ei gohirio gan gynnig gweithdrefnol yn gynharach yn nhrafodion y dydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:48

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2012**